

BTEC Sport Level 2



Yn gwyno

Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio i ymestyn eich sgiliau mewn ystod o chwaraeon tîm ac unigol a'ch symud ymlaen i'r Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Chwaraeon.

Dyma'r cwrs i chi os...

...Oes gennych ddiddordeb symud ymlaen i Ddiploma Estynedig Lefel 3 mewn Chwaraeon

...Oes gennych ddiddordeb mawr mewn chwaraeon

...Oes gennych allu corfforol i ddatblygu ystod o weithgareddau chwaraeon

Beth fyddaf yn ei wneud?

Byddwch yn astudio pynciau gan gynnwys:

Y corff mewn chwaraeon



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Iechyd, diogelwch a niwed
Paratoi ar gyfer chwaraeon
Arweinyddiaeth mewn chwaraeon
Niwed mewn chwaraeon ac ystod o chwaraeon ymarferol

Cewch gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel cymorth cyntaf, gweithgareddau awyr agored, academiâu pêl droed, pêl rwyd neu rygbi.

Asesir y cwrs trwy waith cwrs ysgrifenedig ac ymarferol. Bydd dulliau asesu yn cynnwys ymchwil unigol, gwaith grŵp, gwaith prosiect, cyflwyniadau llafar, arddangosiadau gweledol, aseiniadau ysgrifenedig ac arsylwi ar eich perfformiad. Ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch yn cyflawni:

Lefel 2 Chwaraeon

[Gweithgareddau sgiliau](#)

[Mathemateg a Saesneg](#) (os nad ydych wedi cael Gradd C neu uwch ar lefel TGAU)
Cymwysterau perthnasol eraill i fwyhau eich set sgiliau

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I gael eich derbyn ar y cwrs, bydd angen o leiaf 4 TGAU Gradd D neu uwch arnoch i gynnwys naill ai Mathemateg / Mathemateg Rhifedd neu Saesneg / Cymraeg Iaith Gyntaf neu gymhwyster Diploma Lefel 1 priodol yn y maes galwedigaethol perthnasol i gynnwys naill ai TGAU Mathemateg / Rhifedd Mathemateg neu Saesneg / Cymraeg Iaith Gyntaf Gradd D neu uwch.

Mae angen ymrwymiad llawn i bresenoldeb ac mae cymryd rhan ymarferol yn hanfodol wrth gwblhau'r cwrs hwn.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Diploma Estynedig BTEC Lefel 3 mewn Chwaraeon, Gweithgareddau Awyr Agored neu Wasanaethau Cyhoeddus, Diploma mewn Hyfforddi Ffitrwydd neu gyflogaeth mewn diwydiant sy'n gysylltiedig â chwaraeon.

Apply online at www.colegwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)





TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae disgwyl i ddysgwyr brynu dillad chwaraeon fel amod o dderbyn lle ar y cwrs. Y gost yw tua £75 - £100.

Hefyd, gallai fod cost ychwanegol o £77.50 ar gyfer Ffi Gofrestru D o E / Cludiant Dreigiau / Ffioedd Gwersylla D of E.

Costau ychwanegol ar gampws Crosskeys yw £80 am becyn Ysgol a £45 ar gyfer gweithgareddau awyr agored.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

